POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

## Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Iau, 7 Mawrth 2013 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**2. Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

**3. Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion** (Tudalennau 3 - 14)

Cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir

**5. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

a) **Diweddariad cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** *(ar lafar)*

b) **Cynllun Heddlu a Throsedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** (Tudalennau 15 - 39)

**6. Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** (Tudalennau 40 - 43)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

## 7. <u>Rhaglen Cyfarfodydd Bwriedig 2013/14</u>

Dyddiadau bwriedig:

Dydd Gwener, 12 Ebrill 2013 am 10.00am – dyddiad dros dro ar gyfer gwrandawiad cadarnhau y Prif Swyddog Ariannol
Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2013 am 2.00 pm
Dydd Llun, 9 Medi 2013 am 10.00am
Dydd Llun, 11 Tachwedd 2013 am 10.00am
Dydd Llun, 16 Rhagfyr 2013 am 10.00am – dyddiad dros dro, yn dibynnu ar y dyddiad ar gyfer yr praesept
Dydd Llun, 20 Ionawr 2014 am 10.00am
Dydd Llun, 17 Mawrth 2014 am 10.00am
Dydd Llun, 19 Mai 2014 am 2.00pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng William Knightly (Cadeirydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Glenys Diskin (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| | |
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbychl |
| Cyng Terry Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Colin Powell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Mercher, 19 Rhagfyr 2012 at 10.00 am
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd William Knightly (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cynghorydd Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cynghorydd Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Terry Evans | Cyngor Sir Wrecsam |
| | Cynghorydd Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cynghorydd Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| | Cynghorydd Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| **Swyddogion:** | Ken Finch | Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Richard Jarvis | Cyfreithiwr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Sali Morris | Cymhorthydd Gweinyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

11. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Colin Powell a William T Hughes.

12. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Er budd tryloywder nododd Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth), (Conwy) ei fod yn parhau ar hyn o bryd yn Brif Weithredwr Dros Dro, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

13. **MATERION BRYS**

Dim.

14. **PENODI AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG**

Cafodd argymhellion y Panel Cyfweld a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2012 eu rhoi ger bron Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cyfarfu'r Panel Cyfweld i gyfweld pedwar unigolyn ar gyfer y ddwy swydd i Aelodau Cyfetholedig Annibynnol ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a daethant i'r casgliad mai Mrs. Pat Astbury a Mr. Timothy Rhodes oedd yr ymgeiswyr mwyaf addas.

**PENDERFYNWYD-**

**Penodi Mrs. Pat Astbury a Mr. Timothy Rhodes yn Aelodau Cyfetholedig Annibynnol ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am)

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Mercher, 19 Rhagfyr 2012 at 10.30 am
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd William Knightly (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Patricia Astbury | Aelod Cyfetholedig Annibynnol |
| | Cynghorydd Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cynghorydd Glenys Diskin | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Terry Evans | Cyngor Sir Wrecsam |
| | Cynghorydd Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cynghorydd Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| | Timothy Rhodes | Aelod Cyfetholedig Annibynnol |
| | Cynghorydd Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Anna Humphreys | Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro (Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) |
| | Mike Parkin | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (Heddlu Gogledd Cymru) |
| | Winston Roddick | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **Swyddogion:** | Ken Finch | Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Richard Jarvis | Cyfreithiwr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Sali Morris | Cymhorthydd Gweinyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

15. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Colin Powell a William T Hughes

16. **DECLARATION OF INTEREST: CODE OF LOCAL GOVERNMENT CONDUCT**

Er budd tryloywder nododd Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth), (Conwy) ei fod yn parhau i weithredu ar hyn o bryd fel Prif Weithredwr Dros Dro, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

17. **MATERION BRYS**

Dim.

18. **COFNODION CYFAROFD 13 MEDI 2012**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Cysgodol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 13 Medi 2012 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Cysgodol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 13 Medi 2012 fel cofnod cywir.**

19. **YSTYRIED Y CYLCH GORCHWYL DIWYGIEDIG**

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl diwygiedig ger bron y Panel yn sgil sylwadau ac ymholiadau a wnaed yn y cyfarfod ar 13 Medi 2012 a chyfeiriwyd at *Reoliadau Paneli Heddlu a Throsedd (Cymhwyso Deddfiadau Llywodraeth Leol) 2012.*

Rhybuddiodd y Cyfarwyddwr Strategol efallai y byddai angen gwneud rhai newidiadau i'r Cylch Gorchwyl o hyd yng ngoleuni'r Rheoliadau. Awgrymodd y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig, yn amodol ar i'r grymoedd deddfwriaethol priodol gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y DU, i Gyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) (Conwy) mewn ymgynghoriad gyda Chyfreithiwr a Chadeirydd Conwy i wneud mân newidiadau i'r Cylch Gorchwyl. Pe byddai angen gwneud newidiadau sylweddol yna byddai'r Panel yn cyfarfod er mwyn cytuno ar y newidiadau.

Byddai pob Aelod o'r Panel yn cael eu hysbysu ynglŷn ag unrhyw newidiadau a wnaed.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig a'i fod yn cael ei fabwysiadu gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

**(b) Rhoi awdurdod dirprwyedig, yn amodol ar i'r grymoedd deddfwriaethol priodol gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y DU, i Gyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) (Conwy) mewn ymgynghoriad gyda Chyfreithiwr a Chadeirydd Conwy i wneud mân newidiadau i'r Cylch Gorchwyl, a hysbysu'r Panel ynglŷn ag unrhyw newidiadau**

20. **YSTYRIED GOHEBIAETH YN YMWNEUD Â CHYFETHOL GAN YR UWCH SIRYF A CGGC**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) (Conwy) ohebiaeth ger bron y Panel yr oedd wedi eu derbyn gan Uwch Siryf Clwyd a chan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn perthynas â chael eu cyfethol ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Ystyriodd yr Aelodau'r ceisiadau a theimlo y byddai grwpiau gwirfoddol eraill hefyd yn dymuno cael eu hystyried. Cynigiwyd bod grwpiau eraill sydd â diddordeb yn gwneud eu hunain yn hysbys i'r Panel er mwyn asesu eu haddasrwydd ar gyfer cael eu cyfethol.

Teimlai'r Panel fod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r cais gan yr Uchel Siryf gan fod 2 safle i'w ystyried (Clwyd a Gwynedd) a gan mai penodiad blynyddol yw swydd yr Uchel Siryf. Roedd teimlad y byddai'n cymryd mwy na blwyddyn i ddeall swyddogaeth y Panel yn llawn.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Archwilio'r sector gwirfoddol i weld pa grwpiau fyddai â diddordeb cael eu cyfethol, a thrafod y mater mewn cyfarfod pellach o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

**(b) Rhoi ystyriaeth i'r cais mewn perthynas â'r Uchel Siryf(ion) mewn cyfarfod pellach o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

21. **FFURFIO CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Y Comisiynydd) grynodeb cynhwysfawr o'r hyn y bu yn ei wneud yn ystod ei wythnosau cyntaf yn y swydd a rhoi gwybod i'r Panel fod gofyn, yn unol â Phennod 3, Adran 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ("y Ddeddf"), i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd gyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd ("y Cynllun") cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl cychwyn yn y swydd, gyda therfyn amser statudol ar 31 Mawrth 2013.

Roedd y Comisiynydd wedi cyfathrebu gyda'r cyhoedd trwy gyfrwng y wasg. Roedd y cyhoedd wedi cael eu gwahodd i ddarllen y datganiad i'r wasg ac i wneud awgrymiadau'n uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd.

Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro (Swyddfa'r Comisiynydd) y byddai gwybodaeth gan y cyhoedd a chan randdeiliaid o gymorth wrth lunio'r Cynllun. Cai rhaglen o lefydd y bydd y Comisiynydd yn ymweld â nhw ei chylchredeg.

Roedd yr amserlen ar gyfer ystyried y Cynllun yn hynod dynn a chai gwybodaeth bellach ei darparu pan wneir cais am hynny.

Y dyddiad cau terfynol ar gyfer y Cynllun oedd 11 Mawrth 2012.

Atebodd y Comisiynydd hefyd nifer o gwestiynau, na chyfeiriwyd atynt yn ei gyflwyniad, gan Aelodau'r Panel i gadarnhau ei fod yn ystyried y rôl fel un llawn amser a bod ganddo brofiad helaeth o reoli gwrthdaro posibl; nid oedd eto wedi penderfynu a fyddai Dirprwy Gomisiynydd yn cael ei apwyntio a byddai'n hysbysu'r Panel pe byddai bwriad i benodi i'r swydd honno; roedd gofyn am Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid i'w Swyddfa o dan y Ddeddf ac roedd angen y Swyddog Cyfathrebu i gefnogi gwaith y Comisiynydd; roedd eu swyddogaethau a'u dyletswyddau wedi cael eu hystyried ac wedi cael eu hysbysebu ar lefelau tâl a ystyrid yn gymesur â'r swyddogaethau a'r dyletswyddau hynny.

Nodwyd hefyd y byddai'r Datganiad Cysylltiadau yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

**PENDERFYNWYD-**
**Cefnogi'r sut y bwriedir mynd ati i lunio'r Cynllun Heddlu a Throsedd.**

22. **CYFLWYNIAD AR BRAESEPT PLISMONA A CHYLLID I WASANAETH YR HEDDLU**

Cafodd y Panel gyflwyniad ynglŷn â phraesept Plismona a chyllid i Wasanaeth yr Heddlu gan Gyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (Heddlu Gogledd Cymru).

Amlygodd y cyflwyniad y canlynol:

- Toriadau i'r gyllideb ym mlynyddoedd 2011 - 12 a 2012-13.
- Toriadau diwygiedig yng nghyllidebau 2011-12 hyd 2014-15.
- Toriadau wedi eu cymryd i ystyriaeth ar gyfer cyllideb 2013-14.
- Risgiau Cyllideb megis nad yw unrhyw gynnydd mewn ariannu gan y Llywodraeth neu gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn hysbys eto.
- Defnydd o ffynonellau wrth gefn ac amcanestyniadau fel ag y maent ar 31 Mawrth 2016.
- Roedd Grant cyflawn yr Heddlu ar gyfer 2013-14 yn cael ei gyhoeddi wrth i'r Panel gael ei gynnal ac felly nid oedd modd rhoi ystyriaeth i hyn mewn perthynas â'r cynlluniau ariannol presennol.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r cyflwyniad.**

(The meeting ended at 12.00 pm)

## PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 21 Ionawr 2013 am 10.00 am
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd William Knightly (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) |
| | Patricia Astbury | Aelod Cyfetholedig Annibynnol |
| | Cynghorydd Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cynghorydd Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cynghorydd Terry Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | Cynghorydd Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cynghorydd Charles Jones | Cyngor Gwynedd |
| | Cynghorydd Colin Powell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | Timothy Rhodes | Aelod Cyfetholedig Annibynnol |
| | Cynghorydd Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| **Hefyd yn bresennol:** | Winston Roddick | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| | Anna Humphreys | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| | Mike Parkin | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Swyddogion:** | Ken Finch | Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogi) |
| | Dawn Hughes | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor - CBSC |
| | Richard Jarvis | Cyfreithiwr - CBSC |
| | Tegwen Williams | Cyfieithydd - CBSC |

23. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Dim.

24. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Fe wnaeth y Cynghorydd Bill Cowie ddatgan cysylltiad personol yng Nghofnod 27 - Adroddiad Pennu Cyllideb a Phraeseptau 2013-14, gan ei fod yn Arolygydd Heddlu wedi ymddeol, sy’n derbyn pensiwn yr Heddlu.

25. **MATERION BRYS**

Dim.

26. **YSTYRIED ADRODDIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD:**

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel Heddlu a Throsedd, rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) adroddiad cyfnodol i'r Aelodau am ei waith ers y cyfarfod diwethaf.

Roedd gwaith y Comisiynydd yn cynnwys y canlynol:

- Dysgu am wasanaethau plismona a chreu cysylltiadau gyda phartneriaid, staff a Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru. Roedd perthynas effeithiol gyda'r grwpiau hyn yn hanfodol i gynnal swyddogaethau'r Comisiynydd, fel cyflawni Cynllun yr Heddlu a Throsedd a datblygu polisïau plismona.
- Lansio Galwad am Dystiolaeth – anfonwyd gwahoddiad at bobl Gogledd Cymru i gynorthwyo'r PCC wrth lunio'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Rhoddodd y PCC anogaeth i'r wasg, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, i atgoffa pobl Gogledd Cymru mai dyma eu cyfle i roi gwybod iddo beth oedd yn bwysig iddynt mewn perthynas â throsedd a phlismona a pham.
- Roedd yr ystod eang o waith arall yn cynnwys:
    - Dod yn Gadeirydd y Bwrdd Cymunedau Diogelach
    - Gwella trefniadau i recriwtio aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio
    - Cytuno ar y gyllideb ddrafft a'r praesept bwriedig
    - Adolygu'r datganiadau a gwybodaeth mewn perthynas â'r Alwad am Dystiolaeth
    - Cynnal cyfweliadau i benodi Prif Weithredwr
- Ymweld â swyddogion a gorsafoedd heddlu a Swyddfeydd Cymorth Dioddefwyr i ddysgu am eu gwaith yng Nghymru gyda dioddefwyr a thystion
- Sawl cyfarfod gydag unigolion a chyrff amrywiol, gan gynnwys Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr.
- Cyfweliadau Cyfryngau - roedd delwedd gyhoeddus yr heddlu yn llawer mwy gweladwy ac roedd y cyfrifoldeb yn fyw iawn.

Rhoddodd y Comisiynydd wybod i Aelodau y byddai ei Gynllun Heddlu a Throsedd yn Gynllun i bobl Gogledd Cymru, a'r neges amlwg gan yr etholaeth oedd eu bod eisiau gweld mwy o swyddogion heddlu ar ein strydoedd. Er mwyn i'r Cynllun barhau ar y sail honno, roedd y gyllideb a'r praesept bwriedig wedi'u dyfeisio er mwyn i'r PCC gyflawni'r mandad hwnnw.

27. **ADRODDIAD PENNU CYLLIDEB A PHRAESEPTAU 2013-14**

Fe wnaeth Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth, Rheoleiddio a Chefnogi) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy roi eglurhad i'r Aelodau ynghylch cyfrifoldebau'r Panel mewn perthynas â gosod y praesept.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddent ond yn gallu rhoi feto ar y praesept bwriedig unwaith, a bod angen mwyafrif o ddwy ran o dair y bobl a oedd yn Aelodau o'r Panel ar y lleiaf, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad.

Os oedd y Panel yn dewis rhoi feto ar y praesept bwriedig, rhaid i adroddiad i'r Comisiynydd gynnwys datganiad ynghylch y rhesymau pam y rhoddwyd feto ar y praesept.

Cytunwyd y byddai gweithdai'n cael eu cynnal i Aelodau o'r Panel i edrych ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol, meysydd o bryder a materion yn ymwneud â deddfwriaeth.

Yn dilyn eglurhad o rôl y Panel, fe gyflwynodd y Comisiynydd adroddiad i'r Aelodau ar y Lefel Praesept Plismona bwriedig ac adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer y Gyllideb a'r Praesept 2013/14 i 2016/17.

Er mwyn sicrhau diogelwch yn y cartref a diogelwch mewn mannau cyhoeddus, fe wnaeth y PCC gynnig Praesept Plismona o £62.124m ar gyfer 2013/14, cynnydd o 3.47%, sy'n gyfwerth â chynnydd o 3.98% ar Dreth y Cyngor, 17 ceiniog yn ychwanegol fesul wythnos i aelwydydd band D.

Byddai'r cynnydd bwriedig hwn yn galluogi 51 o Swyddogion Heddlu ychwanegol i gael eu hariannu a chynyddu'r Sefydliad Swyddog o 1417 i 1468, a fyddai'n galluogi mwy o ddewisiadau i ganolbwyntio ar leihau troseddau drwy gamau ataliol a lleihau niwed i gymunedau. Byddai Cynllun yr Heddlu a Throsedd yn nodi mewn mwy o fanylder sut roedd y PCC yn bwriadu cyflawni hyn.

Rhoddodd y PCC wybod yn ystod y broses o bennu cyllideb, bod ei dîm wedi archwilio pob rhan o wariant yr heddlu er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cydbwyso'r angen i gadw trethi mor isel â phosibl, wrth ddarparu'r heddlu gydag adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei addewidion etholiadol.

Mewn ymateb i ymholiadau yn ymwneud â mynd i'r afael â throseddau cefn gwlad a diogelwch rhag trais domestig, rhoddodd y PCC wybod i Aelodau ei fod wedi ymweld â chymunedau gwledig yn ystod ei ymgyrch, oedd â phryderon pendant ac wedi'u heffeithio gan fathau penodol o droseddau. Roedd yn fwriad gan y Comisiynydd, pe byddai'r praesept bwriedig yn cael ei gymeradwyo, y byddai swyddogion yn cael mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yn yr un modd, roedd y PCC wedi gofyn bod tîm trais penodol yn cael ei sefydlu i sicrhau bod canlyniadau yn y maes hwn yn gwella.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro (CFO) wybod, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ei fod yn ofynnol iddo roi sylwadau ar addasrwydd y wybodaeth a ddefnyddir fel y sail ar gyfer penderfyniadau cyllidebol. Cadarnhaodd y CFO bod y ffigurau yn yr adroddiadau amrywiol yn gynnyrch trefnau a oedd yn parhau i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf, ac felly roedd y wybodaeth yn addas i'r pwrpas.

Rhoddodd y CFO wybod i Aelodau hefyd bod arbedion o £4.634m wedi'u nodi ar gyfer 2013/14, ac roedd y Comisiynydd wedi penderfynu mai'r ffordd orau ymlaen i'r gwasanaeth fyddai ail-fuddsoddi £1.776m o'r arbedion hyn mewn swyddogion rheng flaen.

Cadarnhaodd y PCC ei fod wedi ystyried cynnydd is yn y praesept, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol gyfredol. Fodd bynnag, fe wnaeth y PCC ailadrodd mai pwrpas ei bolisi oedd cyrraedd y strydoedd, cefn gwlad a'r cartref, gyda'r bwriad o gael sicrwydd a diogelwch yn y mannau hyn. Byddai cynnydd o 0.57% yn unig (sy'n cyfateb i gynnydd o 17c yr wythnos) yn y gyllideb yn darparu swyddogion ychwanegol a hefyd yn cynnig gwerth am arian i bobl Gogledd Cymru.

Bu'r Panel yn ystyried yr adroddiad yn fanwl a thrafodwyd y materion canlynol:

- Lleoliad y 51 Swyddog – cadarnhaodd y PCC fod hwn yn fater gweithredol i'r Prif Gwnstabl ei drafod gyda'i swyddogion cyfrifol yn nhri rhanbarth Gogledd Cymru. Yn ogystal, byddai'r rhain yn cael eu hategu gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a Swyddogion Arbennig yr Heddlu.
- Cywirdeb Panel yr Heddlu a Throsedd – fe wnaeth y PCC gadarnhau fod y Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth a bod blaenoriaethau'r PCC hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl.
- Cadarnhaodd y CFO na fyddai recriwtio 51 o Swyddogion Heddlu ychwanegol yn cymryd lle'r swyddogion hynny a oedd wedi ymddeol / gadael yr Heddlu a byddai'n cynyddu Sefydliad y Swyddogion i 1468.
- Anghysondebau rhwng cyflogau Swyddogion yr Heddlu a'r PCSOs a'r argostau dilynol.

Cyfeiriwyd hefyd at fforddiadwyedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) a'r rhagdybiaeth gynllunio bod 4% wrth symud ymlaen, a oedd yn gysylltiedig â'r disgwyliad o 3% o ostyngiad mewn grantiau Er bod yr MTFP yn rhoi cynlluniau i'r Aelodau ar gyfer cydbwyso'r gyllideb ar gyfer y dyfodol, nid oedd yn ymrwymo'r Panel i gynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4% wrth symud ymlaen. Mae'r CFO hefyd wedi cadarnhau ei fod yn ofynnol i'r Heddlu ganfod £6m mewn arbedion ar gyfer y dyfodol, na ddylai gael effaith ar unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am
Fe wnaeth y cyfarfod ailymgynnull am 11.50am

*(Nodyn: Gadawodd y PCC a Swyddogion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd y cyfarfod tra ystyriodd yr Aelodau a ddylid derbyn cynigion y PCC mewn perthynas â'r praesept.)*

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Strategol (CBSC) ddarparu eglurhad pellach ynghylch cynigion y PCC gan ailadrodd y byddai'r PCC yn ceisio cymeradwyo praesept am y swm o £62.124m.

Tra bod yr Aelodau yn bryderus ynghylch y cynnydd bwriedig yn y praesept, yn enwedig gan mai cynnydd o 1% yn unig oedd yn ofynnol i gydbwyso'r gyllideb, maent yn cydnabod bod y Comisiynydd wedi'i ethol gan bobl Gogledd Cymru a gyda maniffesto i ddarparu er mwyn cyflawni addewidion ei etholiad.

Cytunodd yr aelodau y dylent gefnogi'r Comisiynydd a'i gynigion mewn perthynas â'r praesept plismona am y rhesymau a amlinellir isod:

- Etholwyd y Comisiynydd yn ddiweddar ac roedd ganddo fandad i gyflawni ar ran pobl Gogledd Cymru.
- Roedd y Panel yn cydnabod nad oedd pennu'r praesept a mabwysiadu Cynllun yr Heddlu a Throsedd yn cyd-fynd ar hyn o bryd ac nid oedd y Cynllun wedi'i gyhoeddi eto, fodd bynnag, byddai'r Panel yn disgwyl i'r Cynllun gyflwyno'r manylion am sut roedd y Comisiynydd yn bwriadu cyflawni mandad yr etholaeth.
- Roedd y Comisiynydd yn atebol i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, a fyddai'n monitro gweithgareddau a gweithredoedd y PCC wrth symud ymlaen, yn dilyn y penderfyniad hwn.
- Er bod y Panel yn cydnabod bod gan Ogledd Cymru un o'r lefelau uchaf o Dreth y Cyngor, roedd yr ardal hefyd yn un o'r rhai mwyaf diogel yn y wlad.
- Nododd y Panel y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, fodd bynnag, nid oedd yn ymrwymo i'r rhagdybiaethau cynllunio o gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Mae'r Panel hefyd yn gofyn bod yr arbedion o £1.777m, a oedd wedi'u nodi i ail-fuddsoddi yn y gwaith o recriwtio 51 Swyddog Heddlu ychwanegol yn cael ei neilltuo ar gyfer y diben hwnnw. Mae'r Panel hefyd wedi gofyn bod y Cynllun Heddlu a Throsedd yn dangos sut y byddai'r Swyddogion Heddlu ychwanegol yn cael eu defnyddio yng Ngogledd Cymru.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol (CBSC) y byddai'n gwneud adroddiad i'r comisiynydd, ar ran y Panel, yn rhoi manylion am eu hargymhellion mewn perthynas â'r praesept ar gyfer 2013/14.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo'r praesept o £62.124m ar gyfer 2013/14, gyda chynnydd o 3.47% yn cael ei gymeradwyo am y rhesymau a amlygwyd uchod.**

**(b) Bod yr arbedion o £1.777m a nodwyd yn cael eu hailfuddsoddi i recriwtio 51 Swyddog Heddlu rheng flaen ychwanegol a bod yr arbedion hyn yn cael eu neilltuo ar gyfer y diben hwnnw yn unig.**

**(c) Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a amlinellodd cynnydd posibl o 4% ar gyfer bob blwyddyn hyd at 2015/16 yn seiliedig ar leihad grant amcangyfrifedig o 3%; fodd bynnag nid yw'r Panel yn ymrwymo ei hun yn llawn i'r tybiaethau hyn yn y dyfodol.**

28. **CADARNHAU GWRANDAWIAD AR GYFER PENODI PRIF WEITHREDWR Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd adroddiad sy'n ymwneud â phenodiad bwriedig y Prif Weithredwr gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn y cyfarfod.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol (CBSC) wybod i Aelodau ei fod yn ofynnol i'r Panel gynnal gwrandawiad mewn perthynas â Phrif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Roedd yn ofynnol bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, lle gofynnwyd i'r ymgeisydd ymddangos at ddibenion ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r penodiad. Yn dilyn y gwrandawiad, roedd yn ofynnol i'r Panel adolygu'r penodiad bwriedig a pharatoi adroddiad i'r Comisiynydd ar y penodiad.

Gofynnwyd i'r Panel ystyried penodiad bwriedig Anna Humphreys fel Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac i lunio argymhelliad i'r Comisiynydd yn ymwneud â hynny.

Rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Aelodau am y meini prawf roedd wedi'u defnyddio wrth benderfynu ar ei enwebiad ar gyfer y swydd statudol hon ac roedd yn credu bod Ms Humphreys wedi cwrdd â'r meini prawf hynny.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod fod gan Ms Humphreys brofiad sylweddol gyda chyflawni dyletswyddau statudol Awdurdod yr Heddlu ac roedd â gwybodaeth helaeth am ddiogelwch cymunedol a gweithio mewn partneriaeth o ganlyniad i'w hamser gyda Chyngor Gwynedd ac yn ddiweddarach gydag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

Cyfeiriwyd at gyflog y Prif Weithredwr, ac mewn ymateb rhoddodd y Comisiynydd wybod fod y cyflog wedi'i hysbysebu am oddeutu £75k ac nid oedd wedi cytuno ar gyflog y swydd hon eto.

**PENDERFYNWYD-**

**Argymell i'r Comisiynydd y dylai Anna Humphreys gael ei benodi fel Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.**

29. **YSTYRIED AILDREFNU DYDDIAD Y CYFARFOD YM MIS MAI 2013**

Gofynnwyd i aelodau aildrefnu dyddiad y cyfarfod ym Mai 2013, er mwyn i bob Awdurdod Lleol benderfynu ar Aelodau enwebedig y Panel yn eu Cyfarfod Cyngor Blynyddol.

**PENDERFYNWYD-**

**Aildrefnu dyddiad y cyfarfod ym Mai 2013 i 4 Mehefin 2013 am 2.00 pm.**

(Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 pm)

---

# Cynllun Heddlu a Throsedd

# Comisiynydd Heddlu a Throsedd

# Gogledd Cymru

## ‘Diogelwch yn y cartref; bod yn saff mewn mannau cyhoeddus’

## Cynnwys

Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ........ 3
Y canlyniadau strategol ........ 7
Diogelwch yn y Cartref ........ 7
Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus ........ 7
Plismona Gweladwy a Hygyrch ........ 7
Yr Amcanion Heddlu a Throsedd ........ 8
Lleihau trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ........ 8
Amddiffyn pobl a lleihau niwed ........ 9
Darparu gwasanaeth o safon sy'n bodloni anghenion ein cymunedau ........ 11
Darparu gweithlu medrus, trefnus a arweinir yn dda ........ 13
Perfformiad ac Atebolrwydd ........ 15
Lleihau Troseddau sy'n Seiliedig ar y Dioddefwr ........ 15
Eich profiadau ........ 15
Y Panel Heddlu a Throsedd ........ 16
Y Cydbwyllgor Archwilio ........ 16
Cyllid ac Adnoddau ........ 17
Cyllid Heddlu Gogledd Cymru ........ 17
Grant yr Heddlu ........ 17
Lle mae'r arian yn cael ei wario? ........ 17
Buddsoddiad Cyfalaf ........ 18
Arian wrth gefn a'r gallu i wrthsefyll ........ 18
Comisiynu ........ 19
Atodiad A: Ynglŷn â Gogledd Cymru ........ 20
Atodiad B: Strategaethau Plismona i'w darparu ........ 22
1. Gwneud atal trosedd yn flaenoriaeth ........ 22
2. Edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wneud o safbwynt y cyhoedd ........ 22
3. Canolbwyntio ar y rhai hynny sy'n achosi'r niwed mwyaf yn ein cymunedau ........ 22
4. Creu perchnogaeth a chyfrifoldeb ar bob lefel ........ 22
5. Bod yn arweinwyr gweithredol, ar bob lefel ........ 22
6. Bod yn ddigon hyderus i leihau gofynion diangen ........ 22
Atodiad C: Gogledd Cymru mewn cyd-destun cenedlaethol ........ 24

## Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ym mis Tachwedd 2012, cefais fy ethol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru. Yn y rôl honno, fi yw cynrychiolydd y cyhoedd o ran materion sy'n ymwneud â Heddlu Gogledd Cymru. Un o fy nghyfrifoldebau allweddol yw gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Diben y Cynllun Heddlu a Throsedd hwn yw egluro sut rwy'n bwriadu gwneud hynny. Mae'n egluro fy amcanion heddlu a throsedd, pa adnoddau ariannol ac adnoddau eraill y byddaf yn sicrhau sydd ar gael i'r Prif Gwnstabl, sut y bydd y Prif Gwnstabl yn adrodd yn ôl i mi ar ei ddarpariaeth plismona a sut y bydd ei berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn yn cael ei fesur.

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, fy mhrif ddyletswyddau yw darparu heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n sicrhau gwerth am arian ac sydd, bwysicaf oll, yn lleihau trosedd. Byddai cyflawni'r nodau hyn yn tawelu meddyliau'r cyhoedd eu bod yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus. Wrth benderfynu ar fy amcanion heddlu a throsedd, rydw i wedi cadw'r dyletswyddau hyn mewn cof. Bydd y berthynas rhwng fy Nghynllun Heddlu a Throsedd a chyllideb yr heddlu yn hynod bwysig ac wrth ystyried sut i sicrhau eu bod yn gysylltiedig rydw i hefyd wedi ystyried natur amrywiol y galw, capasiti a gallu a bod y pethau hyn yn cael eu heffeithio arnynt yn uniongyrchol gan gyfyngiadau cyllidebol.

Bydd y cynllun yn weithredol am bum mlynedd ond byddaf yn ei adolygu'n gyson yn dilyn unrhyw newidiadau i arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol ac unrhyw newidiadau eraill i amgylchiadau.

Gweithredu fel dogfen strategol yw bwriad y Cynllun ond rwy'n cynnig y dylid cael cynllun gweithredu i gyd-fynd ag ef a fydd, yn ogystal â rhoi mynegiant i'r strategaethau, yn fy ngalluogi i fesur darpariaeth amcanion y Cynllun ac i ddal y Prif Gwnstabl yn atebol am eu darparu. Wrth ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cynllun, bydd y cynllun gweithredu yn system graidd ar gyfer gallu datblygu gwelliannau mewn modd clir gan sicrhau atebolrwydd. Ni ddylai gynnwys mwy o fanylion na'r hyn sy'n wirioneddol angenrheidiol er mwyn galluogi rheolwyr i adnabod a chanolbwyntio ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud. Gyda'i gilydd, bydd y ddwy ddogfen yn egluro fy mwriadau i'r cyhoedd, partneriaid, y Panel Heddlu a Throsedd a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cynllun hwn yn parchu annibyniaeth weithredol yr heddlu, yn cynghori beth, o safbwynt strategol, y mae angen iddynt ei gyflawni ond nid sut y dylent fynd ati i wneud hynny.

Er bod y Prif Gwnstabl a'i Swyddogion yn gynulleidfa sylfaenol ar gyfer y Cynllun, fy nod yw gosod rhanddeiliaid, defnyddwyr y gwasanaeth, a buddiolwyr wrth ei wraidd. Fy mwriad yw y bydd yn darparu'r cyhoedd, gan gynnwys asiantaethau partner a dioddefwyr trosedd, â dealltwriaeth glir o'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan yr heddlu a'r comisiynydd.

Wrth baratoi'r Cynllun:

- Rydw i wedi gofyn am farn y cyhoedd;
- Wedi ystyried manylion demograffig a daearyddol gwahanol rannau Gogledd Cymru gan gynnwys yr amrywiadau eang o ran poblogaeth a pha mor agored i niwed y gall ardaloedd arunig fod;
- Wedi ystyried y galw hysbys am blismona a gwasanaethau cysylltiedig eraill;


- Wedi ystyried cyngor ar sut i sicrhau gwerth am arian;
- Wedi cydweithredu â chyrff a phartneriaid cyfiawnder troseddol;
- Wedi gwneud darpariaethau er mwyn sicrhau fod y Prif Gwnstabl a minnau yn cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg;
- Wedi ymgynghori â'r Comisiynydd Plant ac wedi ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lels plant;
- Wedi ystyried sut y gallaf gefnogi dioddefwyr trosedd a thystion;
- Wedi ystyried Gofyniad Polisi Strategol yr Ysgrifennydd Cartref;
- Wedi ystyried fy rôl fel y'i hamlinellir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011;
- Wedi ystyried arweiniad a chodau ymarfer yr Ysgrifennydd Gwladol;
- Ac wedi ystyried safbwyntiau'r Prif Gwnstabl.

Y safonau craidd eraill y mae anghenion plismona'r cynllun hwn yn canolbwyntio arnynt yw hawliau dynol, cynaladwyedd a safonau proffesiynol – a bydd y rhain yn themâu trawsbynciol ym mhob rhan o'r cynllun. Rydw i hefyd wedi ystyried fy maniffesto etholiadol a gefnogwyd gan y cyhoedd yn ystod yr etholiad.

Yn fras, mae tair elfen i drosedd ac mae elfen o gost i bob un, yn ogystal â chanlyniadau ar gyfer y gymuned a'r unigolyn.

*Cyn i'r trosedd gael ei gyflawni:* Cyn i'r trosedd gael ei gyflawni mae cyfle i amharu, dargyfeirio neu atal y trosedd, boed hynny drwy blismona gweladwy neu systemau cymdeithasol neu gefnogaeth cymunedol arall.

*Ar ôl i'r trosedd gael ei gyflawni:* y gost o ymchwilio i'r trosedd hwnnw, arestio a chyhuddo'r troseddwr, cost cadw unigolyn yn y ddalfa, cost yr achos a chost gweinyddu a gweithredu'r ddedfryd boed honno'n ddedfryd o garchar neu'n ddedfryd arall.




*Canlyniadau'r trosedd:* gall y canlyniadau i'r dioddefwr a'r gymuned fod yn rhai emosiynol, corfforol a/neu ariannol. Y gwir yw, os na chyflawnir y trosedd, ni fydd y costau na'r dioddefaint sydd ynghlwm â'r ail a'r trydydd cam yn codi, a dyna pham yr wyf yn credu mewn atal a lleihau troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr. Mae felly'n gwneud synnwyr i fuddsoddi mewn atal trosedd.

Ers yr etholiad, rydw i wedi bod yn dysgu am y sefydliad yr ydw i bellach yn gyfrifol am ei lywodraethu ac wedi bod yn gwrando ar safbwyntiau pobl am y sefydliad hwnnw, yn enwedig sut maent yn elwa o'r gwasanaeth a roddir gan yr heddlu, eu barn am sut y gellid ei wella a'u pryderon allweddol ynglŷn â throsedd yng Ngogledd Cymru.

Rhan o'r cefndir yr ydw i wedi paratoi'r Cynllun hwn a'i amcanion yn ei erbyn yw'r gostyngiad sylweddol mewn troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr a gyflawnwyd yn ddiweddar. Rwy'n llongyfarch y Prif Gwnstabl ar hyn ac hefyd yn cydnabod cyfraniad ein

partneriaid a'n cymunedau. O ganlyniad, rydw i wedi mabwysiadu'r amcanion strategol sy'n gyfrifol am y llwyddiant hwn.

Yn ystod cyfnod yr etholiad siaradais â rhai cannoedd o bobl mewn amrywiaeth o fannau cyhoeddus. Mynegodd mwyafrif y bobl hyn gefnogaeth lawn o'r pum nod a ddisgrifiais yn fy maniffesto:

- cynyddu presenoldeb gweladwy'r heddlu;
- diogelwch yn y cartref a bod yn saff mewn mannau cyhoeddus;
- cydweithio gyda'r Prif Gwnstabl a'r Swyddogion er mwyn sicrhau'r gwasanaeth heddlu gorau posibl;
- estyn allan ac adeiladu partneriaethau tu mewn a thu allan i'r system cyfiawnder troseddol;
- bod yn atebol i'r cyhoedd am bob ceiniog sy'n cael ei gwario a phob penderfyniad a wneir.

Os oes un peth ar goll o'r addewidion maniffesto hyn, cydnabyddiaeth o droseddau cefn gwlad yw hynny. Dysgais am raddau'r dosbarth hwnnw o drosedd ar ôl i mi lunio fy maniffesto ac yn ystod fy ymweliadau â nifer o farchnadoedd anifeiliaid a fy nghyfarfodydd â ffermwyr a'u cynrychiolwyr undebol. Rydw i wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl lunio cynllun darpariaeth gweithredol penodol i fynd i'r afael â throsedd cefn gwlad.

Does gen i ddim amheuaeth am y flaenoriaeth y mae'r cyhoedd yn ei rhoi ar gael mwy o swyddogion heddlu ar y rheng flaen. Ni all fod unrhyw amheuaeth chwaith bod presenoldeb gweladwy gan yr heddlu yn atal trosedd, yn tawelu meddyliau'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu cysylltiadau â'r heddlu.

Rydw i wedi fy hysbysu gan y Prif Gwnstabl bod cryn feddwl wedi'i roi i'r pedwar blaenoriaeth plismona presennol a'u bod "wedi eu geirio er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn glir. Sef:

- lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar ein cymunedau;
- amddiffyn pobl a lleihau niwed;
- darparu gwasanaeth o safon sy'n rhoi hyder i'n cymunedau;
- sicrhau gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda.

Tynnodd fy sylw hefyd at gasgliadau arolwg diweddar sy'n dangos bod y gweithlu yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Does gen i ddim amheuaeth am ddilysrwydd y pwyntiau hyn. Er bod y Llywodraeth wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r awdurdod am osod yr amcanion heddlu a throsedd i'r Comisiynwyr, does dim posib mai eu bwriad oedd i Gomisiynwyr newid amcanion presennol dim ond er mwyn gwneud hynny. Yn fy marn i, mae parhad blaenoriaethau ac amcanion yn bwysig ar gyfer effeithlonrwydd yr Heddlu, cyn belled â bod gwneud hynny yn gyson â'r prif ddyletswyddau a nodais yn gynharach. Rydw i wedi ystyried y pwyntiau hynny wrth lunio'r Cynllun hwn.

**Beth felly yw fy mlaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r nodau hyn?**

Am yr amrywiaeth o resymau yr ydw i wedi eu hamlinellu uchod, rydw i wedi dod i'r casgliad y dylwn fabwysiadu'r pedwar amcan hwn ac y byddai gwneud hynny yn fy ngalluogi i gyflawni'r prif

ddyletswyddau a nodais ynghynt. Rwy'n hyderus y byddant yn fy ngalluogi i gyflawni'r pum addewid a nodais yn fy maniffesto.

## Y canlyniadau strategol

Fel yr eglurais yn fy nghyflwyniad, fy mhrif ddyletswyddau yw darparu heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n sicrhau gwerth am arian ac sydd, bwysicaf oll, yn lleihau trosedd.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni'r dyletswyddau hyn, rydw i wedi gosod pedair amcan – fy amcanion heddlu a throsedd. Sef:

- Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Amddiffyn pobl a lleihau niwed
- Darparu gwasanaeth o safon sy'n bodloni anghenion ein cymunedau
- Sicrhau gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda,

Fy nisgwyliad yw y bydd yr amcanion hyn, gyda'i gilydd, yn sicrhau'r canlyniadau canlynol:

### Diogelwch yn y Cartref

Mae hyn yn bwysig i bawb. Teimlo'n ddiogel, yn saff, heb deimlo dan fygythiad gan drosedd a throseddwyr a heb deimlo ofn o ba bynnag ffynhonnell.

Byddaf yn gweithio tuag at wella diogelwch pobl yn y cartref, a'u hymdeimlad o fod yn ddiogel yn y cartref, a thuag at leihau trosedd sy'n seiliedig ar y dioddefwr.

### Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus

Mae angen i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru deimlo'n saff mewn mannau cyhoeddus yn ystod y dydd a'r nos.

Byddaf yn gweithio tuag at wella diogelwch pobl mewn mannau cyhoeddus a'u hymdeimlad o fod yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus, a thuag at leihau trosedd sy'n seiliedig ar y dioddefwr.

### Plismona Gweladwy a Hygyrch

Does dim amheuaeth bod presenoldeb gweladwy'r heddlu yn atal trosedd, yn tawelu meddyliau'r cyhoedd ac yn atgyfnerthu cysylltiadau â'r heddlu. Credaf nad oes unrhyw beth yn atal trosedd mor effeithiol â phlismona mwy gweladwy a'r hyn sy'n allweddol er mwyn sicrhau bod cymunedau'n teimlo'n ddiogel yw gwybod fod yr heddlu yn sefydliad hygyrch, a fydd ar gael pan fydd ei angen fwyaf.

Rydw i eisiau gweithio tuag at ddatblygu heddlu mwy gweladwy a hygyrch.

Yr Amcanion Heddlu a Throsedd

## Lleihau trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Bydd lleihau **troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr** yn faes craidd o fusnes ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Bydd Cynllun Lleihau Trosedd yr Heddlu yn ffurfio sylfaen ein hymdriniaeth a bydd yn arwain ein gweithredoedd. Drwy barhau i leihau trosedd byddwn yn lleihau'r niwed emosiynol, corfforol ac ariannol i ddioddefwyr. Drwy fynd i'r afael â throsedd a lleihau aildroseddu bydd y baich ar y system cyfiawnder troseddol hefyd yn cael ei leihau.

**Gwasanaeth brys** yw'r heddlu ac mae'n bwysig fod swyddogion yn weladwy, yn hygyrch ac yn bwysicaf oll yn ymateb yn brydlon i argyfyngau. Fodd bynnag, mae agwedd ragweithiol yn hytrach nag adweithiol, a ddarperir ar y cyd â'n hasiantaethau partner, yn hanfodol er mwyn delio â'r hyn sydd wrth wraidd trosedd ac er mwyn atal ein cymunedau rhag dioddef niwed.

Mae'r Heddlu ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'i brosesau a fydd nid yn unig yn lleihau ac yn **rheoli galw yn fwy effeithiol** ond a fydd hefyd yn rhyddhau galluoedd plismona er mwyn cefnogi'r swyddogion ychwanegol a fydd yn cael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Byddaf yn cefnogi'r broses hon wrth iddi gael ei lledaenu ar draws ardal yr Heddlu.

Ni all yr Heddlu fynd i'r afael â throsedd ac anrhefn ar ei ben ei hun. Er mwyn lleihau trosedd, lleihau aildroseddu, gwella diogelwch a datblygu hyder y cyhoedd mae angen iddo weithio mewn modd sydd â ffocws a hynny o fewn cymunedau a gyda'i bartneriaid. Rwy'n bwriadu **gweithio'n agos â'n partneriaid** er mwyn sicrhau gwell cyfleoedd i gydweithio er mwyn herio ymddygiad troseddol a sicrhau bod pobl yn rhoi'r gorau i droseddu.

Byddwn yn parhau i ddatblygu defnydd o **gyfiawnder adferol a datrysiadau cymunedol** er mwyn helpu i sicrhau bod safbwyntiau'r dioddefwyr yn cael eu clywed a bod troseddwyr yn sylweddoli'r gwir effaith y mae'r hyn maent yn ei wneud yn ei gael ar eraill. Nod craidd hyn yw gweithio tuag at leihau lefelau o aildroseddu, gyda phwyslais penodol ar **leihau nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro.**

## Amddiffyn pobl a lleihau niwed

Mae'n ddyletswydd ar yr Heddlu i ymateb mor gyflym ac effeithiol â phosib drwy **amddiffyn, tawelu meddyliau a chefnogi dioddefwyr**, arestio troseddwyr ac ymchwilio i droseddau.

Gall pobl gwahanol fod yn fwy agored i niwed mewn gwahanol amgylchiadau neu sefyllfaoedd, a gallai hynny arwain iddynt fod yn **fwy agored i droseddau** a chynyddu effaith posibl trosedd arnynt. Mae'n bwysig bod yr heddlu yn gallu adnabod pobl agored i niwed yn effeithiol a'u bod yn gallu ymateb. Bydd angen sicrhau bod bygythiadau sy'n codi yn cael eu hadnabod a'u datrys ar y cyfle cynharaf posibl er mwyn lleihau risg ac osgoi niwed.

Mae'r Heddlu wedi sefydlu tîm i ymdrin â'r trosedd o **drais rhywiol**. Yn aml iawn, nid yw dioddefwyr y math hwn o drosedd yn awyddus iawn i riportio digwyddiadau i'r heddlu ac mae'n bwysig bod yr heddlu yn parhau i weithio er mwyn gwella ansawdd a chysondeb ymateb yr heddlu i'r troseddau hyn, a hynny mewn partneriaeth.

Mae nifer y bobl sy'n **cael eu lladd neu sy'n dioddef anafiadau difrifol** ar ffyrdd Gogledd Cymru yn dal yn gymharol uchel. Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, asiantaethau lleol a'r heddlu wedi bod yn cydweithio i geisio lleihau'r risgiau hyn ac mae'n bwysig eu bod yn parhau i wneud hynny.

Mae'r **Gofyniad Plismona Strategol (SPR)** yn nodi'r bygythiadau canlynol i ddiogelwch cenedlaethol, diogelwch cyhoeddus, trefn gyhoeddus a hyder y cyhoedd ac mae angen i heddluoedd gydweithio er mwyn ymladd yn erbyn y bygythiadau hynny:

- Terfysgaeth
- Argyfyngau sifil
- Troseddau trefnedig a gaiff eu nodi yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol yn Haen lefel 2
- Trefn gyhoeddus na ellir ei reoli gan un heddlu yn gweithredu ar ei ben ei hun
- Digwyddiadau seibr ar raddfa fawr
- Digwyddiadau sylweddol sydd â goblygiadau cenedlaethol

Er bod y materion a nodir mewn cyd-destun cenedlaethol, gallant gael effaith difrodus yn lleol, yn enwedig grwpiau trosedd trefnedig sy'n masnachu sylweddau anghyfreithlon i mewn i'n cymunedau. Byddaf yn sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu'n llawn tuag at ddarparu eu hymrwymiad i'r SPR er mwyn lleihau niwed difrifol i'n cymunedau a chymunedau ledled y DU ac yn gweithio mewn partneriaeth â heddluoedd yng Nghymru, Gogledd Orllewin Lloegr ac ardaloedd eraill er mwyn gwneud hynny.

Mae angen i'r **troseddwyr mwyaf peryglus a threisgar** sy'n peri bygythiad i'n cymunedau gael eu rheoli o fewn y system cyfiawnder troseddol. Mae gan yr heddlu a'i asiantaethau partner ran hollbwysig i'w chwarae yn y gwaith o reoli a lleihau'r risgiau hynny.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn delio â thua 1,500 o adroddiadau am **unigolion ar goll** bob blwyddyn. Mae rhai o'r adroddiadau a geir yn rhai risg uchel ac maent yn gofyn am ymateb trylwyr gan yr Heddlu. Mae gan yr heddlu berthynas waith agos â'r timau achub mynydd a thimau chwilio gwirfoddol eraill ac rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cefnogaeth gwerthfawr. Mae yna hefyd waith sylweddol o ran pobl ifanc sy'n mynd ar goll o gartrefi plant ac unigolion a allai fod yn profi

argyfyngau personol. Bydd yr Heddlu yn mynd ati'n barhaus i geisio cryfhau a datblygu ei waith yn y maes hwn gan weithio'n agos â darparwyr gofal, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

## Darparu gwasanaeth o safon sy'n bodloni anghenion ein cymunedau

Gellir rhannu anghenion y gymuned yn fras yn ddwy ran. Y cyntaf yw'r anghenion sy'n cael eu hadnabod gan yr heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill, yn seiliedig ar brofiad, ymchwil a thystiolaeth. Yr ail ran yw'r anghenion y mae'r gymuned yn eu hadnabod ohoni ei hun. Yr hyn sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth gwasanaeth priodol ar gyfer y cymunedau yw adnabod eu hanghenion plismona.

Bob blwyddyn bydd yr Heddlu'n llunio **asesiad strategol cynhwysfawr** o'r heriau sylweddol y maent yn debygol o'u wynebu o ran trosedd a materion cysylltiedig yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd yr asesiad yn hysbysu gweithgareddau'r heddlu a'i ryngweithio ag asiantaethau eraill. Bydd hefyd yn hysbysu'r ffordd y bydd yr Heddlu'n defnyddio ei adnoddau fel bod swyddogion a staff yn cael eu hanfon i'r mannau hynny lle mae'r angen mwyaf. Mae wardiau lle ystyrir bod angen dulliau plismona gwahanol a lle mae'n rhaid i nifer y swyddogion a staff fod yn briodol i lefel y galw. Mae'n rhaid i'r Heddlu hefyd gynllunio er mwyn gallu ymateb yn briodol i amrywiadau tymhorol mewn poblogaeth, sy'n addasu anghenion plismona'r ardaloedd hynny yn sylweddol yn ystod y cyfnodau hynny.

Byddaf yn chwarae rôl allweddol o ran **gwrando ar gymunedau** er mwyn darganfod beth yw eu hanawsterau a'u problemau er mwyn sicrhau bod yr anghenion plismona y mae'r cymunedau eu hunain yn eu hadnabod yn cael eu tynnu at sylw tîm Prif Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru. Am fwy o fanylion ar sut yr ydw i'n bwriadu ymgymryd â'r rôl hon, gweler y manylion ar fy nhrefniadau perfformiad ac atebolrwydd ar dudalen 14.

Credaf fod heddlu gweladwy a hygyrch yn ffurfio rhan allweddol o ddarparu gwasanaeth effeithiol i'n cymunedau fel yw ymateb i wahanol anghenion y gwahanol gymunedau. Er enghraifft, mae'r cymunedau gwledig wedi mynegi eu dymuniad am gymorth i fynd i'r afael â throseddau cefn gwlad. I'r perwyl hwnnw, rydw i wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl lunio cynllun darpariaeth gweithredol penodol er mwyn mynd i'r afael â throseddau cefn gwlad.

Gall Heddlu Gogledd Cymru fod yn falch o'r ffaith eu bod yn arwain yng Nghymru o ran cefnogi a noddi'r gwaith o ddysgu a defnyddio'r **iaith Gymraeg**. Nid yn unig yw hi'n bwysig o ran deddfwriaeth i ddelio â phobl yn eu dewis iaith, mae hefyd yn ddangosydd pwysig bod yr Heddlu yn rhoi ystyriaeth i'w cymunedau. Byddaf yn parhau i yrru'r sefydliad tuag at bod yn sefydliad dwyieithog a hynny o fewn system cyfiawnder troseddol dwyieithog.

Mae **Cod Ymarfer Dioddefwyr a Thystion** newydd yn cael ei ddatblygu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd ac rwy'n bwriadu gweithio â'r Heddlu a'i bartneriaid er mwyn ei roi ar waith.

Mae'n fwriad gan y Llywodraeth mai fi, fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yn hytrach na'r Llywodraeth Ganolog, fydd yn gyfrifol am benderfyniadau yn ymwneud â'r gefnogaeth leol sydd ei hangen ar ddioddefwyr i ymdopi ag effaith uniongyrchol trosedd. Wrth gomisiynu gwasanaethau byddaf yn ceisio adnabod arferion da a gwasanaethau sydd eisoes yn darparu cymorth priodol a byddaf yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus, yn ogystal â'r sectorau preifat a gwirfoddol, er mwyn datblygu gwasanaethau newydd. Bydd manylion fy nghynlluniau'n cael eu cyhoeddi yn y man.

Byddaf hefyd yn monitro data bodlonrwydd dioddefwyr er mwyn adnabod meysydd sydd angen eu gwella neu rhai y dylid eu cydnabod am eu bod yn gweithio'n dda.

## Darparu gweithlu medrus, trefnus a arweinir yn dda

Mae gweithlu medrus, trefnus a arweinir yn dda yn hanfodol ar gyfer gallu darparu gwasanaeth effeithiol. Bydd mwyafrif yr adnoddau y byddaf yn eu darparu i'r Prif Gwnstabl yn cael eu gwario ar bobl, a byddaf yn ymddiried yn y Prif Gwnstabl i roi'r sgiliau angenrheidiol i'r gweithlu er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Yn fy mlwyddyn gyntaf fel Comisiynydd, rydw i wedi cynyddu'r praesept treth cyngor er mwyn i mi allu ariannu 51 swyddog heddlu ychwanegol. Rwy'n cydnabod y cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr, yn enwedig y rhai hynny sy'n rhoi eu hamser am ddim i weithio fel Swyddogion Gwirfoddol ac rwy'n cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn eu niferoedd. Mae'r Heddlu Gwirfoddol yn rhoi gwir ystyr i'r ymadrodd 'yr heddlu yw'r gymuned; y gymuned yw'r heddlu'.

Rwy'n cefnogi Strategaethau Darpariaeth Plismona'r Prif Gwnstabl (Atodiad B). Gyda'i gilydd, mae'r strategaethau hyn yn rhoi'r grym i staff a swyddogion wneud penderfyniadau rhesymedig wrth gyflawni eu dyletswyddau a gallant gefnogi cyrhaeddiad fy amcanion heddlu a throsedd.

Rydw i eisoes wedi cyfarfod nifer o staff a swyddogion ar bob lefel gan gynnwys swyddogion cefnogi cymuned a swyddogion gwirfoddol ac mae eu hymrwymiad wedi creu argraff dda iawn arnaf. Byddaf yn parhau i'w cyfarfod ac i wrando arnynt drwy gydol oes y Cynllun hwn. Byddaf yn sicrhau eu bod yn parhau i gael yr hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad sy'n angenrheidiol ar gyfer gallu darparu gwasanaeth o'r safon uchaf. Rwy'n cefnogi'r pwysigrwydd y mae'r Heddlu yn ei roi ar waith tîm a'r syniad o '**arweinyddiaeth weithredol'** ar bob rheng a graddfa o staff.

Fe ddylai'r staff a swyddogion fod yn cael eu hysgogi, eu rheoli'n dda, ac yn hyderus yn y gwasanaeth cyffredinol. Byddaf yn cefnogi'r Prif Gwnstabl i adnabod a delio â materion sy'n cael eu codi gan staff a swyddogion drwy'r **arolwg diwylliannol** blynyddol a drwy annog perthynas dda â'r cymdeithasau staff.

Bydd y **Coleg Plismona** yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu seiliedig ar dystiolaeth a byddaf yn annog y Prif Gwnstabl a'i dîm i wneud y defnydd gorau o'r adnodd cenedlaethol hwn. Byddaf hefyd yn annog gwelliant parhaus a dysgu a datblygiad o fewn y sefydliad.

Nod y Prif Gwnstabl yw creu strwythur trefniadol a llywodraethu clir a thryloyw. Rwy'n gwbl gefnogol o'r nod hwnnw a byddaf yn rhoi'r un egwyddorion ar waith yn fy swyddfa fy hun. Mae'n bwysig bod y ddau ohonom yn gallu dangos fod gennym strwythurau cyfathrebu a rheoli clir sy'n addas i'r diben o fewn ein sefydliadau ein hunain.

Mae hyder yn unplygrwydd a safonau proffesiynol yr heddlu yn hanfodol os yw ein cymunedau yn mynd i barchu ac ymddiried yn yr heddlu. Byddaf yn gweithio i hyrwyddo'r lefel uchaf o safonau proffesiynol ac yn gweithio gyda Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) ac Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu er mwyn cynnal y safonau hynny a delio â methiannau. Byddaf yn sicrhau ein bod ni'n dysgu o gamgymeriadau boed y rheini'n gamgymeriadau ar ein rhan ni neu bobl eraill.

Byddaf yn gweithio â chyrff allanol megis Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi (HMIC) a'r Coleg Plismona er mwyn gwneud y gorau o unrhyw gyfleoedd i wella.

Byddaf yn ymgysylltu'n agos â'r Heddlu a rhanddeiliaid posibl eraill, ond hefyd byddaf yn cynnal fy annibyniaeth fy hun a fy swyddfa. Byddaf yn parchu ac yn cefnogi unplygrwydd gweithredol y Prif

Gwnstabl a byddaf hefyd yn sicrhau bod cyfeiriad strategol yr heddlu yn cael ei osod yn gadarn yn dilyn ymgynghori'n eang. Bydd y broses o ymgynghori yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

# Perfformiad ac Atebolrwydd

## Lleihau Troseddau sy'n Seiliedig ar y Dioddefwr

Mae troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr yn cynrychioli dros 80% o'r holl droseddau a gofnodir. Fel y mae'r enw'n ei awgrymu mae'n ymwneud â dioddefwr ac yn canolbwyntio ar bedwar prif math o drosedd: trais, troseddau rhyw, dwyn, difrod troseddol ac arson. Bydd y lefel o droseddau seiliedig ar y dioddefwr yn fesur allweddol o berfformiad y Prif Gwnstabl a'r heddlu ac o ddiogelwch pobl yng Ngogledd Cymru.

Bydd y defnydd o'r mesur hwn yn galluogi'r cyhoedd i fesur llwyddiant Gogledd Cymru yn erbyn heddluoedd eraill.

Yn cynnal y targed o leihau trosedd sy'n seiliedig ar y dioddefwr y mae fframwaith perfformiad sy'n cynnwys mesurau allweddol ar draws ein busnes plismona craidd, a gwybodaeth ariannol megis goramser, gwariant cyllideb a chostau tanwydd. Bydd yr holl fonitro ar sail eithriadau gan ddefnyddio dulliau ystadegol gadarn er mwyn adnabod tueddiadau cadarnhaol a diffygiol a materion i'w harchwilio ymhellach drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol neu fforymau eraill. Bydd yr Heddlu yn cyhoeddi'r wybodaeth perfformiad leol hon yn fisol drwy'r Crynodeb Perfformiad, a bob mis, yn dilyn adolygiad a wneir drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol, byddaf yn cyhoeddi fy arsylwadau, sylwadau neu weithredoedd a gytunir sy'n codi o'r crynodeb perfformiad hwnnw.

Fy mwriad yw cael ymgysylltiad parhaus â'r heddlu, y cyhoedd a rhanddeiliaid ar yr hyn a ddarperir yn erbyn yr amcanion gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd er mwyn galluogi'r rhai hynny sy'n byw yng Ngogledd Cymru i asesu perfformiad y Prif Gwnstabl a fy mherfformiad innau wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau perthnasol.

Drwy Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru byddaf yn cydweithio â'n partneriaid yn y sectorau diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol er mwyn datblygu fframwaith perfformiad priodol a fydd yn mesur ein perfformiad a'n heffaith cyfunol.

## Eich profiadau

Mae gwrando ar eich safbwyntiau am blismona a materion trosedd yng Ngogledd Cymru yn hanfodol er mwyn fy ngalluogi i fonitro effaith y Cynllun hwn. Bydd eich safbwyntiau yn anochel yn cyd-fynd â'r fframwaith perfformiad.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi Strategaeth Ymgysylltu â Chymunedau ar y cyd â'r Heddlu a phartneriaid eraill a allai elwa o gydweithio, er mwyn cael adborth gan y cyhoedd. Bydd y strategaeth yn nodi sut y byddaf, wrth geisio darparu ei hamcanion, yn mynd ati'n weithredol i geisio safbwyntiau'r cyhoedd am ein cynnydd, boed y rheiny yn gadarnhaol, negyddol neu'n dangos dim barn y naill ffordd neu'r llall. Bydd yr adborth y byddwch yn ei roi yn fy ngalluogi i gael gwir fewnwelediad i'n gwaith a byddaf yn ei ddefnyddio i graffu ar waith yr Heddlu ac er mwyn ail edrych ar elfennau o'r Cynllun Heddlu a Throsedd os bydd angen.

Nid bwriad cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar y Cyd yw cyfaddawdu fy annibyniaeth na thanseilio perthnasau sydd eisoes wedi'u ffurfio â'r heddlu ond yn hytrach sicrhau ein bod ni'n cydweithio er mwyn ymgysylltu'n briodol a bod yn glir am pryd y dylem fod yn ymgynghori ar wahân. Bydd y Strategaeth hefyd yn darparu cam allweddol yn y broses o ddatblygu tuag at ddarparu heddlu mwy gweladwy a hygyrch a bydd yn fy ngalluogi i fonitro cynnydd.

Byddaf hefyd yn cynnal arolwg blynyddol er mwyn darganfod mewn ffordd fwy gwyddonol, pa gynnydd yr ydym yn ei wneud o ran cyflawni ein nodau. Cyn comisiynu'r arolwg cyntaf rydw i hefyd yn bwriadu ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn penderfynu ar y cwestiynau.

Rydw i wedi nodi sut y bydd y Prif Gwnstabl yn adrodd yn ôl i mi ar ei ddarpariaeth plismona a sut y bydd ei berfformiad yn cael ei fesur.

Y prif ffyrdd o gyflawni'r amcanion hyn fydd trwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol(y Bwrdd), adolygiadau annibynnol ac archwiliadau mewnol ac allanol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gen i fel y Comisiynydd a bydd hefyd yn cynnwys y Prif Gwnstabl, Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yr Heddlu a Phrif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid fy swyddfa i. Cynhelir cyfarfod bob pythefnos, neu ar adegau eraill y byddaf yn penderfynu arnynt, mewn ymgynghoriad â'r Prif gwnstabl. Bydd busnes y Bwrdd yn cael ei benderfynu arno gan y Bwrdd a bydd yn cynnwys adroddiadau gan y Prif Gwnstabl o ran ei ddarpariaeth plismona a'r amcanion heddlu a throsedd, sut mae'n cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth a'r dulliau a fabwysiadwyd gan Heddlu Gogledd Cymru er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant ymysg pethau eraill.

## Y Panel Heddlu a Throsedd

Mae dyletswydd statudol ar y Panel Heddlu a Throsedd i graffu ar fy ngweithgareddau fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Drwy fy nghynllun cyhoeddi, byddaf yn mynd ati'n weithredol i gyhoeddi gwybodaeth er mwyn cynorthwyo'r Panel a'r cyhoedd i ddilyn fy ngwaith a'r hyn rwy'n ei wneud. Yn ychwanegol at ymateb i'w ceisiadau a'u cwestiynau, byddaf yn darparu'r Panel ag adroddiadau amserol ar fy ngweithgareddau fel comisiynydd ac yn adrodd yn ôl ar fy nghynnydd yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae'n ofynnol fy mod yn ymgynghori â'r Panel ar benderfyniadau penodol – ond gan eu bod hwythau hefyd yn rhan o gymuned Gogledd Cymru a'u bod yn cynrychioli cymunedau Gogledd Cymru rwy'n bwriadu eu cynnwys yn y broses o fonitro cynnydd y Cynllun.

## Y Cydbwyllgor Archwilio

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi penderfynu sefydlu cydbwyllgor archwilio er mwyn cefnogi a herio gweithgareddau penodol yr ymgymerir â nhw gan yr Heddlu a fy swyddfa i, ac i ddarparu cyngor adeiladol ar gyfer gwella. Rydym wedi hysbysebu am aelodau yn ddiweddar.

# Cyllid ac Adnoddau

Rydw i wedi gosod y lefelau cyllid ac adnoddau a fydd ar gael i'r Prif Gwnstabl er mwyn darparu gwasanaeth plismona yng Ngogledd Cymru.

Rwy'n gwneud hynny er mwyn arddangos y berthynas bwysig rhwng yr amcanion heddlu a throsedd a'r adnoddau a fydd yn darparu'r gwasanaeth. Wrth baratoi'r cynllun hwn rydw i wedi cadw'r cwestiynau hollbwysig canlynol mewn cof; "*Allwn ni ei fforddio*?" ac "*Yda ni'n gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau*?".

Ar gyfer 2013/14 byddaf yn dyrannu cyllideb net o £141.705m i'r Prif Gwnstabl ar gyfer darparu gwasanaeth plismona i Ogledd Cymru.

## Cyllid Heddlu Gogledd Cymru

Y prif ffynonellau o gyllid ar gyfer yr Heddlu yw Grantiau Llywodraeth a delir gan y Swyddfa Gartref a'r cyllid a gesglir trwy gyfraniadau Treth Cyngor. Ar hyn o bryd mae trethdalwyr yn darparu 44% ar gyfer yr Heddlu tra mae grant Heddlu'r Llywodraeth Ganolog yn cyfri am 56%, Rydw i wedi codi'r treth cyngor 3.98% ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn galluogi cynnydd o 0.57% yn y gyllideb gyffredinol. Mae hyn wedi fy ngalluogi i leihau effaith y toriadau a wnaed i gyllideb yr heddlu gan y llywodraeth ganolog ac wedi galluogi ail fuddsoddi'r arbedion a nodwyd yn yr amcanion plismona a throsedd yn y Cynllun hwn.

## Grant yr Heddlu

Nid oes unrhyw gyhoeddiadau wedi'u gwneud o ran setliadau ar gyfer 2014-15 ymlaen. Mae hyn yn golygu llawer iawn o ansicrwydd o ran y gyllideb yn y dyfodol, yn enwedig gan y bydd y fformiwla y mae'r Swyddfa Gartref yn ei defnyddio i ddyrannu cyllid yn cael ei hadolygu.

Mae manylion llawn y Rhagolwg Cyllideb a newidiadau ar gyfer 2013-14 a'r blynyddoedd sydd i ddod i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

## Lle mae'r arian yn cael ei wario?

Drwy gydol cyfnod y Cynllun hwn byddaf yn gweithio i sicrhau ein bod ni'n gwario cymaint o arian â phosibl ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, mae'r swyddogaethau swyddfa gefn hefyd yn bwysig iawn o ran sicrhau bod Swyddogion heddlu, Swyddogion Cefnogi Cymuned yr heddlu, Swyddogion Gwirfoddol a Staff yr Heddlu yn gallu canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth heddlu ac nad ydynt yn treulio mwy o amser nag sydd raid yn ymgymryd â thasgau gweinyddol.




Er mwyn sicrhau'r defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau byddaf yn glynu at yr egwyddorion canlynol:-

- Sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar ein prif nod – Gogledd Cymru diogelach.
- Targedu adnoddau er mwyn darparu'r Amcanion Heddlu a Throsedd
- Cynyddu capasiti'r gwasanaeth rheng flaen
- Sicrhau bod y gwasanaethau cefnogi angenrheidiol yn darparu gwir gefnogaeth i'r rheng flaen.
- Cydweithio â'n partneriaid er mwyn dod o hyd i gynifer o gyfleoedd â phosib i gydweithio.

Drwy gydol cyfnod y Cynllun hwn byddaf yn adolygu ein gwariant er mwyn sicrhau o gymharu a meysydd eraill, ein bod ni'n dyrannu ein hadnoddau mewn modd effeithiol. Bydd Proffiliau Gwerth am Arian yr HMIC yn ffurfio rhan ganolog o'r gwaith hwn.

## Buddsoddiad Cyfalaf

Credaf fod pobl yn dymuno cael gwasanaeth heddlu hygyrch ac mae isadeiledd priodol yn bwysig er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth o blismona ledled Gogledd Cymru. Felly, rydw i wedi ymrwymo i gynnal gorsafoedd heddlu lleol neu fannau cyswllt oni bai ei bod hi'n berffaith amlwg nad oes angen y ddarpariaeth honno. Cyn hir, byddaf yn cyhoeddi manylion llawn hyn o fewn Strategaeth yr Ystâd. Rhwng heddiw a diwedd 2015 byddaf yn goruchwylio dros £18 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf yn yr heddlu. Bydd mwyafrif y buddsoddiad mewn adeiladau heddlu lleol ac yn cael ei atodi gan fuddsoddiadau angenrheidiol mewn TG, fflyd ac isadeiledd angenrheidiol arall. Bydd y prosiect mwyaf sylweddol yn darparu gorsaf heddlu a dalfa newydd yn Wrecsam. Byddaf gorsaf heddlu newydd hefyd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni.

## Arian wrth gefn a'r gallu i wrthsefyll

Mae rhan sylweddol o blismona yn ymwneud â darparu ymateb argyfwng rheng flaen. Gall yr Heddlu weld ei hun yn wynebu argyfwng ar raddfa fawr sydd â chanlyniadau ariannol sylweddol (fel a brofwyd yn ystod 2012-13) a hyd yn oed mwy nag un digwyddiad ar yr un pryd. Er mwyn gallu ymdopi â'r risg hwn a lleihau effaith achosion o'r fath ar weddill y busnes craidd mae angen cadw

arian sylweddol wrth gefn. Mae'r rhain yn sicrhau bod ymatebion i argyfyngau'n cael eu harwain gan anghenion plismona yn hytrach na fforddiadwyedd.

Defnyddir yr arian wrth gefn cyffredinol (£7.189m) er mwyn ariannu gofynion llif arian cyffredinol ac er mwyn darparu'r gallu cyntaf i wrthsefyll. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) yn darparu manylion llawn am yr arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio a'r arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi (ar gyfer pethau fel pensiynau a PFI).

## Comisiynu

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn fy ngalluogi i gomisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol gan ddarparwyr y tu allan i'r heddlu. Byddaf yn cyhoeddi fy fframwaith comisiynu dros y misoedd nesaf ond yn ganolog i fy nodau ar gyfer comisiynu gwasanaethau fydd darpariaeth yr Amcanion Heddlu a Throsedd a chyflawniad canlyniadau'r Cynllun hwn.

Rwy'n bwriadu defnyddio Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd i gomisiynu gwasanaethau gan bartneriaid, y sector preifat, y sectorau gwirfoddol a chymunedol, gyda'r nod o gefnogi'r heddlu i ddarparu'r amcanion Heddlu a Throsedd. Bydd 2013/14 yn flwyddyn trawsnewidiol i'r Gronfa. Bydd y flwyddyn trawsnewidiol yma yn fy ngallyogi i adolygu'r rhaglenni gwario cyfredol.

## Atodiad A: Ynglŷn â Gogledd Cymru


Ystyrir Gogledd Cymru yn un o'r mannau prydferthaf yn y Deyrnas Unedig i fyw ac i ymweld ag ef. Gyda phoblogaeth o 687,500 mae ardal heddlu Gogledd Cymru yn 6,300 cilomedr sgwâr ac yn ymestyn o Bronington yn y Dwyrain i Aberdaron yn y Gorllewin ac o Fae Cemaes yn y Gogledd i Aberdyfi yn y De.

Mae ardal yr Heddlu yn cynnwys chwe sir ddaearyddol Gogledd Cymru sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae ardal yr Heddlu yn cael ei gwasanaethu gan un Bwrdd Iechyd sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gan Awdurdod a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Gwasanaethir yr ardal gan Wasanaeth Prawf Cymru ac Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Ambiwlans.

Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd dinesig a gwledig gan gynnwys dwy ddinas, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd sylweddol (Caergybi yn Ynys Môn a Mostyn yn Sir y Fflint), mannau diwydiannol sy'n ehangu (yn y Dwyrain yn bennaf) a nifer o drefi prysur, nifer ohonynt sy'n denu nifer fawr o dwristiaid yn ystod misoedd yr haf.

**Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Gellir ystyried Gogledd Cymru fel un o'r mannau diogelaf yng Nghymru a Lloegr. Gwelwyd gostyngiad parhaus mewn troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr dros y blynyddoedd diweddar. Graddiwyd Gogledd Cymru yn 21ain yn genedlaethol, 7fed o fewn ei Grŵp Heddluoedd Tebycaf (GHT) ac yn 2il yng Nghymru gyda 57.282 trosedd ar gyfer pob 1000 o'r boblogaeth, o gymharu â chyfartaledd 50.211 ym mis Rhagfyr 2012.




**Plismona Gogledd Cymru**

Mae'r Heddlu ei hun yn rheoli'r gwaith o blismona'r chwe sir hon drwy reolaeth ganolog ar gyfer rhai materion plismona, megis rheoli digwyddiadau sylweddol a delio â throseddau trefnedig ond mae sylfaen y gwasanaethau plismona wedi ei gwreiddio'n gadarn yn y deg ardal blismona sydd wedi'u lleoli yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Sef:




1. **Ynys Môn**
2. **Gogledd Gwynedd**
3. **De Gwynedd**
4. **Gorllewin Conwy Arfordirol**
5. **Conwy a Dinbych Wledig**
6. **Dinbych Arfordirol ac Abergele**
7. **Gogledd Sir y Fflint**
8. **De Sir y Fflint**
9. **Tref Wrecsam**
10. **Wrecsam Wledig**

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2011/12) derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru 87.712 o alwadau '999' a chyfanswm o 457,008 o alwadau ar y llinell ddifrys gan gynnwys y rhif '101' (Llinell Gymraeg 23,561 a'r llinell Saesneg 433,447). Gwnaed 21,242 o arestiadau yn ystod yr un cyfnod.

# Atodiad B: Strategaethau Plismona i'w darparu

Mae'r Prif Gwnstabl wedi mabwysiadu'r strategaethau plismona mewnol isod er mwyn gallu sicrhau darpariaeth ac felly cefnogi'r Amcanion Heddlu a Throsedd:

**1. Gwneud atal trosedd yn flaenoriaeth**

Bydd atal trosedd , ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fathau eraill o niwed yn flaenoriaeth gennym a dyna fyddwn yn ei ystyried gyntaf ym mhopeth y byddwn yn ei wneud.

Wrth i ni ymateb i alwadau am gymorth a mynychu digwyddiadau neu wrth i ni fynd ati'n weithredol i ymgysylltu neu ar batrôl, y peth cyntaf fyddwn yn feddwl amdano yw sut y gallwn atal trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fathau eraill o niwed.

**2. Edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wneud o safbwynt y cyhoedd**

Rydym yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ac mae'n rhaid i hyn fod yn sylfaen i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Rhaid i'n gweithredoedd flaenoriaethu anghenion y cyhoedd bob amser. Byddwn yn ystyried beth fyddai'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gennym ym mhopeth y byddwn yn ei wneud.

**3. Canolbwyntio ar y rhai hynny sy'n achosi'r niwed mwyaf yn ein cymunedau**

Mae "niwed mwyaf" yn cyfeirio at ddifrifoldeb unrhyw drosedd neu effaith nifer o droseddau dro ar ôl tro. Ym mhob achos, byddwn yn mynd at i geisio arestio a lleihau niwed heb unrhyw oedi diangen.

**4. Creu perchnogaeth a chyfrifoldeb ar bob lefel**

Mae perchnogaeth yn rhoi pwrpas, balchder ac atebolrwydd.

Drwy greu systemau, prosesau a thimau sy'n hyrwyddo ac yn galluogi perchnogaeth byddwn yn sicrhau gwell amgylchedd ar gyfer atal a datgelu trosedd a datrys y problemau y byddwn yn eu hwynebu.

**5. Bod yn arweinwyr gweithredol, ar bob lefel**

Fel arweinwyr, byddwn yn mynd ati i ymgysylltu gyda a chefnogi'r rhai hynny rydym yn eu harwain. Byddwn yn canolbwyntio ar alluogi a herio ein swyddogion a'n staff i ddarparu'r canlyniadau gorau er mwyn gallu cyflawni ein blaenoriaethau.

Mae hyn yn golygu ymrwymiad, arloesedd a thrafodaethau ynglŷn â pherfformiad, prosesau a gweithredoedd er mwyn gwella canlyniadau.

**6. Bod yn ddigon hyderus i leihau gofynion diangen**

Mae gennym lai o adnoddau, byddwn yn sicrhau nad yw ein hymdrechion yn cael eu gwastraffu.

Fel unigolion, mae cyfrifoldeb arnom i gael pethau'n iawn y tro cyntaf. Mae dyblygu gwaith yn wastraff amser. Byddwn yn cwestiynu pethau sydd i weld yn ychwanegu ychydig iawn o werth at yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau na fydd ein hymdrechion yn cael eu gwastraffu. Byddwn yn dileu'r systemau a'r prosesau hynny nad ydynt yn cyfrannu at gyflawni ein gweledigaeth. Bydd ein parodrwydd i gymryd risgiau derbyniol yn cynyddu, yn enwedig yn y meysydd hynny sy'n cael ychydig iawn o effaith ar y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

# Atodiad C: Gogledd Cymru mewn cyd-destun cenedlaethol

**Y Gofyniad Plismona Strategol (SPR)**

Mae’r Gofyniad Plismona Strategol yn nodi safbwynt yr Ysgrifennydd Cartref o ran y bygythiad cenedlaethol y mae’n rhaid i’r heddlu ddelio ag ef a’r galluoedd plismona cenedlaethol priodol sydd eu hangen i fynd i’r afael â’r bygythiadau a nodir. Mae’n rhaid i mi ystyried y Gofyniad Plismona Strategol wrth addasu’r ddogfen hon ac mae’n rhaid i’r Prif Gwnstabl ystyried y Gofyniad Plismona Strategol wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae’n rhaid i mi ddal y Prif Gwnstabl yn atebol am wneud hynny,

Mae dwy ran i’r Gofyniad Plismona Strategol. Mae rhan un yn adnabod y bygythiadau i ddiogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd, trefn gyhoeddus a hyder y cyhoedd, gyda’r canlynol wedi eu hadnabod fel bygythiadau:

- Terfysgaeth
- Argyfyngau sifil
- Troseddau trefnedig sy’n cael eu hadnabod yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol ar Haen 2
- Digwyddiadau trefn gyhoeddus na all un heddlu ar ben ei hun ddelio â nhw
- Digwyddiadau seibr ar raddfa fawr
- Digwyddiadau sylweddol sydd â goblygiadau cenedlaethol

Mae rhan dau yn amlinellu’r gofyniad plismona cenedlaethol, sydd ei angen yn genedlaethol er mwyn mynd i’r afael â’r bygythiadau a nodir uchod. Ynghyd â’r asiantaethau cenedlaethol bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dal y Prif Gwnstabl yn atebol am bob gofyniad ac hefyd yn ystyried y gofyniad wrth osod y Cynllun Heddlu a Throsedd lleol. Y gofynion canlynol sydd wedi’u nodi:

- Capasiti a chyfraniad
- Gallu
- Cysondeb
- Cysylltedd

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru nifer o fesurau a mentrau yn eu lle er mwyn bodloni’r anghenion hyn, nifer ohonynt sydd wedi eu cynnwys ac sy’n cael eu hystyried yn bethau arferol, er enghraifft:

**Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU):** Mae WECTU yn uned arbenigol Cymru gyfan sy'n ymateb i fygythiadau gan eithafiaeth rhyngwladol, cenedlaethol a domestig. Mae'r uned hefyd yn cydweithio â phartneriaid mewn cymunedau er mwyn datblygu ffydd a hyder ac i dargedu a tharfu ar derfysgwyr ac eithafwyr.

**Swyddogion Trefn Cyhoeddus:** Mae gan Heddlu Gogledd Cymru nifer o swyddogion sydd wedi derbyn hyfforddiant fel rhan o gwricwlwm hyfforddiant trefn gyhoeddus cenedlaethol yr heddlu. Anfonir y swyddogion trefn gyhoeddus i achosion neu ddigwyddiadau diogelwch cyhoeddus yng Ngogledd Cymru ac maent hefyd ar gael i gynorthwyo Heddluoedd eraill os oes angen.

**Cymorth mewn digwyddiadau cenedlaethol:** Mae Heddlu Gogledd Cymru yn chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o gefnogi digwyddiadau cenedlaethol, er enghraifft anfonwyd nifer o swyddogion i Lundain yn ystod y gemau Olympaidd i roi cymorth i Heddlu Llundain yn ystod y cyfnod prysur

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

MAWRTH 2013

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|
| **7 Maw 2013**<br><br>**4 Meh 2013** | **Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**<br>Derbyn diweddariad ynglŷn â gwaith y Comisiynydd ers y cyfarfod diwethaf | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **7 Maw 2013** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd**<br>Derbyn cyflwyniad ffurfiol o’r Cynllun Heddlu a Throsedd | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **4 Meh 2013** | **Dogfennau Llywodraethu Drafft**<br>Ystyried y dogfennau llywodraethu drafft yn cynnwys y Côd Llywodraethu Corfforaethol | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **4 Meh 2013** | **Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**<br>Derbyn adroddiad blynyddol y Comisiynydd (Tachwedd 2012 hyd Mai 2013) | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Medi 2013**<br><br>**11 Tach 2013**<br><br>**17 Maw 2014** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd - Adolygiad Cynnydd**<br>Adolygu’r cynnydd yng nghyflawniad Cynllun yr Heddlu a Throsedd (Chwarter 1):<br><br>Chwarter 2<br><br>Chwarter 3 | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **11 Tach 2013** | **Adolygu Aelodaeth Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**<br>O fewn 12 mis i ethol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf dros Ogledd Cymru, bydd y panel yn adolygu priodoldeb yr Aelodau yn unol â darpariaethau o fewn Deddf Diwygio'r heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol a Rheoliadau Paneli'r Heddlu a Throsedd (Enwebiadau, Penodiadau, Hysbysiadau) 2012. Bydd yr adolygiad o'r aelodaeth yn ystyried yr angen sydd o hyd gogyfer â chael cydbwysedd gwleidyddol ar y Panel. | |
| **16 Rhag 2013** | **Praesept Bwriedig 2014/15**<br>Ystyried y praesept bwriedig ar gyfer 2014/15<br><br>*(Caiff dyddiad y cyfarfod hwn ei osod yn derfynol yn dilyn cadarnhau'r amserlen ar gyfer sefydlu praesept 2014/15)* | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **16 Rhag 2013** | **Cyllideb Ddrafft ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15**<br>Ystyried y gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu ar gyfer 2014/15 | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **16 Rhag 2013** | **Cyllideb Ddrafft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15**<br>Ystyried y gyllideb ddrafft ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15. | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **Eitemau i'r dyfodol** | | |
| **12 Ebrill 2012**<br>**Dros Dro** | **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer y Prif Swyddog Cyllid**<br>Adolygu'r penodiad bwriedig sydd i'w wneud gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i swydd y Prif Swyddog Cyllid | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| | **Gweithdrefn Gwynion**<br>Ystyried gweithdrefn gwynion briodol ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. | Richard Jarvis, Cyfreithiwr<br>richard.jarvis@conwy.gov.uk |
| | **Hyfforddi a Datblygu Aelodau**<br>Gofynnir i Aelodau ystyried pa hyfforddiant a datblygu y byddent yn dymuno ei dderbyn. Nid yw'r rhestr ganlynol yn un gynhwysfawr, ond mae'n cynnig dewisiadau hyfforddi i'w hystyried:<br><br>• Cyllid yr Heddlu, gan gynnwys gosod y praesept<br>• Swyddogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd<br>• Rheoli Perfformiad yr Heddlu<br>• Gofynion Plismona Strategol<br>• Cwynion<br>• Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>• Cydweithredu<br>• Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol<br>• Penodiadau | |